

## GRIFFITH, DAVID ('Clwydfardd ' 1800 - 1894), bardd eisteddfodol ac archdderwydd

**Enw:** David Griffith  
**Ffugenw:** Clwydfardd  
**Dyddiad geni:** 1800  
**Dyddiad marw:** 1894  
**Rhiant:** Richard Griffith  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** bardd eisteddfodol ac archdderwydd  
**Maes gweithgaredd:** Eisteddfod; Barddoniaeth  
**Awdur:** Daniel Williams

Ganwyd yn Heol y Dyffryn, Dinbych, 29 Tachwedd 1800. Fel ei dad, Richard Griffith, oriadurwr a gwneuthurwr clochau ydoedd wrth ei alwedigaeth. Yr oedd yn wr cadarn ei gorff, ac fel pregethwr lleyg (Wesleaid) (1827-94) cerddodd droeon i'w deithiau Sul 30 o filltiroedd - cerddodd i ben yr Wyddfa, ôl a blaen, pan oedd yn 84. Dywed: 'Penodwyd fi yn Archdderwydd ... yn y fl. 1860; ond yn Eisteddfod Wrexham, yn y flwyddyn 1876 y cefais fy nhrwyddedu yn Archdderwydd Gorsedd ... Beirdd Ynys Prydain ' (*Yr Eurgrawn*, 1895, 127). O 1860 i 1894 ni chollodd ond un (Caerfyrddin) o'r eisteddfodau hyn. Mewn eisteddfod leol (Llanerchymedd, 1835) y dechreuodd ei gwrs hir fel beirniad, ac efe oedd bardd swyddogol eisteddfod Aberffraw yn 1849. Bu'n 'arwain' yn 'eisteddfodau'r Clerigwyr,' ac yn y 'genedlaethol' yn gyson. Bu'n cydgystadlu â '[Bardd Nantglyn](#)' droeon, a rhoddwyd iddo fedal arian am gyfieithiad gwych o '*Deserted Village*' (Goldsmith) mor gynnar â 1827. Allan o 86 o ymgeiswyr am ddau englyn i'w cerfio ar gofgolofn [Owen Williams](#), y Waenfawr, ei eiddo ef a wobrwyyd. O'i holl englynion cyhoeddedig ei gampwaith yn y gynghanedd ydyw ei linellau pert i'r llwynog. Yn eisteddfod Bangor, Medi 1890, daeth i'w ran i urddo brenhines Roumania â'r enw ' Carmen Sylva,' a'r dydd yn dilyn croesawyd hi gan gorfforaeth Llandudno, ' Clwydfardd ' yn ei chyflwyno. Yn eisteddfod Caernarfon 1894 (blwyddyn ei farw) urddwyd tywysog a thywysoges Cymru ganddo, y naill â'r enw ' Iorwerth Dywysog,' a hithau ' Hoffedd Prydain.' Diogelodd urddas yr Orsedd a chadwodd y cysylltiad rhyngddi â'r eisteddfod yn ddilwgr. Yn 1890 rhoddde y Llywodraeth iddo rodd o £200. Bu farw 30 Hydref 1894.

### Awdur

Y Parchedig Daniel Williams, (1878 - 1968)

### Ffynonellau

*Y Geninen*, 1895, 86, 164, 260

*Yr Eurgrawn Wesleyaid*, 1844 (Rhagfyr), 1895 (Ebrill)

*Bye-Gones, relating to Wales and the Border Counties*, 1893-4, 478-9

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [David Griffith](#)

## Delweddau

John Thomas, [David Griffith \(Clwydfardd, 1800-94\)](#)

Hugh Humphreys HHmphrs, [David Griffith, Clwydfardd](#)

A. & G. Taylor, [David Griffith, Clwydfardd](#)


John Thomas, [Clwydfardd, Druisyn, and Treban](#)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: [1968630](#)

Wikidata: [Q152720](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

